



## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg

### 3 Rhagfyr 2021

### Cofnodion

<b>Yn bresennol:</b>		
<b>Enw</b>	<b>Teitl</b>	<b>Sefydliad</b>
Y Cyngorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyngorydd Lis Burnett (LB)	Dirprwy Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP)	BIP Caerdydd a'r Fro
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Chris Hadfield (CH)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Andy Robinson (AR)	Arweinydd Tîm, Pobl a Lleoedd, Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Y Cyngorydd Mike Cuddy (CMC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Wendy Gurney (WG)	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
<b>Hefyd yn bresennol:</b>		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Joanna Beynon (JB)	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Emil Evans (EE)	Dirprwy Brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro

Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Paula Ham (PH)	Pennaeth Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg

Eitemau'r Agenda	Camau Gweithredu
<p><b>1. Croeso a chyflwyniadau</b></p> <p>Croesawodd MB bawb i gyfarfod y BGC a dywedodd y byddai'n cadeirio gan y byddai'r Cynghorydd Moore yn hwyr yn ymuno â'r cyfarfod oherwydd ymrwymyadau eraill.</p>	
<p><b>2. Ymddiheuriadau</b></p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p><b>3. Cofnodion cyfarfod y BGC ar 15 Hydref 2021</b></p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.</p>	
<p><b>4. Diweddariad COVID-19</b></p> <p>Rhoddodd FK y wybodaeth ddiweddaraf i'r partneriaid am y sefyllfa bresennol yn y Fro. Mae cyfraddau'r amrywiolyn Delta yn dechrau gostwng, ond mae'r cyfraddau yn y Fro yn parhau'n uchel. Rhoddodd FK drosolwg o'r dangosfwrdd gwyliaidwriaeth diweddaraf ar gyfer Bro Morgannwg. Mae'r data diweddaraf adeg y cyfarfod yn dangos bod achosion cymunedol yn gostwng yn araf ymhlith y rhai 60 oed ac yn hŷn sy'n debygol o ganlyniad i gyflwyno'r rhaglen atgyfnerthu yn llwyddiannus. Mae'r achosion hefyd yn gostwng ymhlith pobl iau. Mae nifer y bobl gyda COVID sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty'n gostwng, ond mae pwysau'n parhau ar y system oherwydd nifer y bobl nad oes COVID ganddynt sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty. Ar hyn o bryd mae'r data'n dangos nad oes cynnydd penodol yn nifer y marwolaethau ychwanegol oherwydd COVID yn y Fro. Bu effaith fawr ar ofal cymdeithasol a gofal cartref eto yn ystod yr wythnosau diwethaf.</p> <p>Crynhodd FK y gweithgarwch sydd wedi'i wneud mewn ymateb i'r amrywiolyn OMICRON. Ar adeg y cyfarfod, roedd tua 22 o achosion wedi'u cadarnhau yn y DU, ond roedd tua 500 o achosion posibl a thebygol, nid oedd unrhyw achosion wedi'u cadarnhau yng Nghaerdydd na Bro Morgannwg. Amheuir bod cyfradd trosglwyddo'r amrywiolyn hwn yn uwch, fodd bynnag, mae hyn i'w gadarnhau o hyd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i astudio effaith y brechlyn ond mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y brechlyn yn dal i fod yn effeithiol. Mae pob un o'r 4 gwlad gartref yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cynnydd a wneir yn cael ei gynnal drwy dri maes ffocws, mae'r rhain yn cynnwys canfod a rheoli'n gynnar, cyfyngiadau teithio a chynnydd yn y rhaglen atgyfnerthu. Caiff y cynllun ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn fuan, a bydd y rhai sydd ag imiwnedd gwan iawn yn cael cynnig pedwerydd dos. Y neges allweddol yw parhau i hyrwyddo'r brechlyn.</p> <p>Dywedodd FK wrth y partneriaid am y pwysau staffio i gefnogi'r rhaglen atgyfnerthu gan gynnwys staff i weinyddu'r brechlyn, staff gweinyddol a staff sy'n delio â galwadau a</p>	

<p>gofynnodd i'r partneriaid ystyried a allai unrhyw un o'u gweithluedd helpu. Nododd MB fod y mater hwn hefyd wedi'i drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dywedodd TB wrth y partneriaid fod y mater hwn wedi'i drafod yng nghyfarfod Uwch Dîm Arwain y Cyngor a bod y Pennaeth Adnoddau Dynol yn ymchwilio i'r hyn a allai fod yn bosibl.</p> <p>Gofynnodd MB a oedd amserlen i ddisgwyl cyngor ar fynychu a chynnal dathliadau'r Nadolig. Nododd FK fod neges Llywodraeth Cymru yn debygol o annog pobl i fod yn ofalus iawn i gadw Cymru'n ddiogel ac i wneud profion llif unffordd yn rheolaidd.</p> <p>Gofynnodd MB a oedd unrhyw gyfathrebu cyson y gallai'r partneriaid ei rannu. Dywedodd FK y byddai'r ymgyrch Cadwch Gymru'n Ddiogel yn cael ei hail-lansio ac y gall Rob Jones, Cyngor Bro Morgannwg, sy'n arwain yr agwedd gyfathrebu ar Dracio, Orlhain, Diogelu ar gyfer Caerdydd a'r Fro sicrhau bod pob partner yn derbyn y pecyn cyfathrebu. Nododd TB fod pob arweinydd cyfathrebu yn cydweithio ac y bydd yn rhannu'r cysylltiadau ar gyfer partneriaid y BGC gyda Rob.</p> <p>Gofynnodd CJ i bartneriaid annog y boblogaeth i fod yn amyneddgar a rhoi sicrwydd i bobl a allai deimlo'n bryderus ynghylch y sylw yn y cyfryngau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith.</p>	<b>TB</b>
<p style="text-align: center;"><b>5. Asesiad Lles: cymeradwyo ymgynghoriad</b></p> <p>Rhoddodd HM drosolwg o'r cynnydd a wnaed i ddatblygu'r Asesiad Lles drafft a diolchodd i'r partneriaid am eu hadborth ar y drafft a'r cyfraniadau yng ngweithdy mis Tachwedd. Bydd y partneriaid yn cael cyfle arall i adolygu'r drafft yn ystod yr ymgynghoriad arno a bydd unrhyw adborth yn cael ei ystyried ynghyd ag adborth y cyhoedd, rhanddeiliaid eraill, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae cydweithwyr yn parhau i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr sy'n gweithio ar Asesiad Lles BGC Caerdydd ac Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro. Bydd gwaith yn digwydd dros y misoedd nesaf i groesgyfeirio canfyddiadau pob un o'r 3 asesiad.</p> <p><a href="#">Mae adroddiad trosolwg, 'Golwg ar Fro Morgannwg'</a>, wedi'i ddatblygu yn dilyn gweithdy mis Tachwedd. <a href="#">Disgwylir mai'r adroddiad hwn fydd y bennod y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymgysylltu â hi.</a> Mae'r casgliadau'n cyd-fynd â'r rhai yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ac mae pwyslais ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, y boblogaeth sy'n heneiddio a heriau gwledig.</p> <p>Ar ôl i'r Asesiad drafft gael ei gymeradwyo, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus arno rhwng 10 Ionawr a 12 Chwefror. Anfonir pecyn asedau i'r partneriaid i helpu i hysbysebu'r ymgynghoriad. Rhoddir diweddariad llafar yng nghyfarfod y BGC ym mis Chwefror ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, yna bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei adlewyrchu lle bo hynny'n bosibl yn y ddogfen derfynol a fydd yn cael ei chymeradwyo yng nghyfarfod y BGC ym mis Ebrill.</p> <p>Cyflwynodd LF grynodedd o'r adroddiad trosolwg gan dynnu sylw at sut mae'r adroddiad hwn a'r canfyddiadau allweddol yn cysylltu â'r pedwar adroddiad arall ac agendâu'r BGC. Mae'r adroddiad trosolwg yn rhoi'r cyd-destun presennol ar gyfer sut beth yw bywyd yn y Fro, sy'n dda ar y cyfan, ond mae gwahanol heriau a materion yn effeithio ar wahanol ardaloedd a phobl. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi beth allai dyfodol bywyd yn y Fro fod,</p>	

<p>yn bennaf drwy lens yr argyfyngau hinsawdd a natur. Defnyddir canfyddiadau'r Asesiad i ystyried sut y gall y BGC fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn y Cynllun Lles newydd.</p> <p>Diolchodd MB i HM ac LF am eu gwaith a nododd fod yr adroddiad trosolwg yn ddarn da o waith sy'n gryno iawn.</p> <p>Diolchodd AR iddynt hefyd a dywedodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn hapus i gymeradwyo'r asesiad drafft ar gyfer ymgynghoriad. Roedd AR yn hapus i weld bod yr adborth blaenorol a roddwyd wedi'i adlewyrchu yn y drafft.</p> <p>Dywedodd LB ei bod yn wych bod y lefel hon o wybodaeth a data ar gael i alluogi'r partneriaid i dargedu ymyriadau yn ein cymunedau, gan hwyluso sgysiau lle gall y partneriaid nodi'r ardaloedd lle gall y BGC gael yr effaith fwyaf.</p> <p>Gwerthfawrogodd MC y gwaith a wnaed i ddatblygu'r drafft ond awgrymodd y byddai'n dda esbonio rhai termau technegol o fewn y drafft ymhellach e.e. AGEHI. Byddai hyn yn sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu deall yr adroddiad a'i ddadansoddiad. Cytunodd FK ag awgrym MC a diolchodd i LF am y gwaith ar yr asesiad.</p> <p>Cytunodd y partneriaid i gymeradwyo'r Asesiad Lles drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.</p>	<p><b>LF</b></p>
<p style="text-align: center;"><b>6. Cytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru</b></p> <p>Cyflwynodd JC grynoded o Gytundeb Cydweithio Plaid Cymru / Llywodraeth Cymru a lofnodwyd yn ddiweddar. Tynnodd JC sylw at y ffaith nad oedd y cytundeb cydweithio yn fargen gyllideb neu'n glymblaid ac y byddai'r cydweithio'n para am dair blynedd yn amodol ar adolygiad ac adnewyddu blynyddol. Mae'r Cytundeb Cydweithio'n cynnwys 46 o ymrwymadau polisi a'r bwriad yw galluogi cynnydd i fwrw ymlaen â diwygiadau mwy sylweddol a allai fod yn radical mewn meysydd polisi anoddach.</p> <p>Mae mwy o wybodaeth am y Cytundeb Cydweithio ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, mae hyn yn cynnwys manylion y <a href="#">Cytundeb Cydweithio ei hun</a>, a'r <a href="#">mecanweithiau ar gyfer ei weithredu</a>.</p> <p>JC fydd yn rhoi gwybodaeth y BGC i'r arweinwyr polisi a fydd wedyn yn ei rhoi i'r grŵp mewnol a gaiff ei sefydlu.</p> <p>Nododd MB fod llawer o'r meysydd yn y Cytundeb Cydweithio yn cysylltu â'r Asesiad Lles. Os yw'r rhain yn feysydd ffocws ar gyfer datblygu polisi wrth symud ymlaen, mae'n bwysig ystyried sut y byddai hyn yn cysylltu â gwaith y BGC a'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Lles. Tynnodd JC sylw at y ffaith y bydd y camau gweithredu'n amrywiol iawn gyda rhai yn fwy hirdymor a rhai meysydd ffocws mwy uniongyrchol. Gellid ystyried y meysydd mwy hirdymor wrth ddatblygu gweithgareddau'r BGC yn y dyfodol.</p>	
<p style="text-align: center;"><b>7. Trafodaeth ar Bwysau'r Gaeaf a Phwysau Eraill</b></p> <p>Tynnodd y partneriaid sylw at faterion a meysydd sy'n peri pryder dros fisoedd y gaeaf.</p> <p><u>Cyngor Bro Morgannwg</u> Rhoddodd TB grynoded ar gyfer safbwynt yr awdurdod lleol gan nodi bod yr Uwch Dîm Arwain wedi symud ffocws o ymateb i COVID yn unig i ystyried meysydd risg mwy strategol</p>	

<p>sy'n dod i'r amlwg. Mae pwysau sylweddol yn y system gofal cymdeithasol o ran y cynnig gofal cartref i oedolion, y cynnig cartrefi preswyl a nyrsio a chymhlethdod anghenion plant a phobl ifanc. Mae cynnydd yn y galw a'r cymhlethdod ochr yn ochr â materion denu, cadw a hunanynysu o fewn y gweithlu.</p> <p>Mae pryderon am yr effaith y mae Brexit a COVID yn ei chael ar gael gafael ar ddeunyddiau adeiladu a llafur a'r effaith y gallai hyn ei chael ar gyflawni cynlluniau. Bu cynnydd 20% yn y costau ar gyfer y deunyddiau ar gyfer cynlluniau cyfalaf.</p> <p>Mae heriau hefyd i ddinasyddion sydd ychydig yn uwch na'r trothwy tlodi a sut y gall partneriaid weithio i deilwra cymorth, cyngor a gwasanaethau i gefnogi'r rhai a allai ddod yn dlawd gan fod amcanestyniadau economaidd yn dangos y bydd y gaeaf eleni'n anodd i lawer o bobl.</p> <p><u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</u></p> <p>Tynnodd FK sylw at feysydd sy'n wynebu pwysau sylweddol dros y gaeaf. Mae pryderon ynghylch ysbytai lle mae'r galw bellach yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig gan greu oedi ar gyfer brysbennu a thriniaeth ac oedi mewn ymatebion ambiwlansiau oherwydd COVID a materion nad ydynt yn ymwneud â COVID. Mae pryderon yn parhau ynghylch gofal sylfaenol lle mae'r galw'n uchel, er bod dulliau newydd o frysennu a gwasanaethau ar-lein yn cael eu cynnig, mae angen o hyd i gynnydd apwyntiadau wyneb yn wyneb lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Mae atal yn parhau'n bryder. Gofynnir i'r partneriaid barhau i hyrwyddo'r brechlyn COVID a rhyddhau staff lle bo modd i gefnogi'r rhaglen atgyfnerthu.</p> <p>Mae pryderon o ran adfer gyda phobl bellach â chlefydau mwy datblygedig a all leihau'r cyfleoedd ar gyfer y canlyniadau gorau. Ar hyn o bryd mae'r bwrdd iechyd yn cyflawni 85% o'r gweithgarwch achosion dyddiol a'r gofal a gynlluniwyd i gleifion mewnol cyn y pandemig. Mae'r materion gweithlu a amlygwyd gan TB yn cael eu gweld yn y maes gofal iechyd hefyd ac mae'r rhaglen atgyfnerthu COVID yn effeithio'n ychwanegol ar y maes hefyd.</p> <p>Tynnodd FK sylw at y camau y gall pob partner eu cymryd i hyrwyddo'r system CAV/247 ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys, gan annog y brechlynnau fflw a COVID, hyrwyddo'r Ymgyrch Gofalwn Genedlaethol i ddenu pobl i ofal, gan hyrwyddo ymgyrch Cadwch Gymru'n Ddiogel a chymorth y trydydd sector.</p> <p><u>Cyfoeth Naturiol Cymru</u></p> <p>Rhoddodd AR y wybodaeth ddiweddaraf gan Cyfoeth Naturiol Cymru gan roi gwybod i'r partneriaid y bu cynnydd mewn digwyddiadau dros y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi effeithio ar ymateb ac ymyrraeth. Mae llawer o waith yn cael ei wneud o hyd yn dilyn llyfogydd y llynedd ac mae problemau gyda recriwtio a chadw staff sy'n cyd-fynd â chynnydd mewn prisiau yn golygu bod yn rhaid i'r sefydliad ailflaenoriaethu gwaith.</p> <p><u>Gwasanaethau Prawf</u></p> <p>Tynnodd HW sylw at y ffaith mai recriwtio yw'r brif broblem yn y gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae swyddi gwag yn y gwasanaeth ac erbyn hyn mae llai o staff ar gael oherwydd bod pobl wedi gwneud newidiadau i'w ffordd o fyw yn ystod COVID gan adael proffesiynau hirdymor a'r pwysau salwch sydd ar y gorwel. Mae'r gwasanaeth yn ymdopi ar hyn o bryd ac mae'n gallu ailflaenoriaethu'n fewnol, ond mae'r gwasanaeth yn fregus.</p>	<p><b>Pawb</b></p> <p><b>Pawb</b></p>
---	---------------------------------------

<p><u>Heddlu De Cymru</u> Amlinellodd Llywodraeth Cymru y pryderon yn yr Heddlu gyda chynnydd yn y galw am gynadleddau achos mewn perthynas â materion diogelu, heriau o ran trwyddedu gyda'r cyfyngiadau COVID newidiol, cynnydd mewn trais rhywiol, trais yn erbyn menywod a cham-drin rhywiol - er bod hyn yng Nghaerdydd yn bennaf, mae trigolion ym mhob cymuned yn pryderu am deimlo'n ddiogel yn economi'r nos. Mae pwysau adnoddau strategol hefyd wrth i swyddogion newydd gael llawer o hyfforddiant yn ystod eu tair blynedd gyntaf yn yr heddlu ac o ganlyniad nid ydynt bob amser ar gael i weithio ar y rheng flaen. Mae pryderon yn gysylltiedig â'r effaith gynyddol ar ofynion gorfodi oherwydd OMICRON.</p> <p><u>Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM)</u> Rhoddodd RC drosolwg o'r pryderon am GGM gan nodi nad yw cymaint o bobl am wirfoddoli. Er bod y niferoedd yn fwy na'r niferoedd yn 2019 mae angen mwy o wirfoddolwyr i helpu gyda phwysau'r gaeaf. Anogodd RC y partneriaid i ryddhau staff i wirfoddoli i gynyddu'r cymorth sydd ar gael fel y gaeaf blaenorol. Dywedodd mai diwrnodau'r wythnos yw'r adegau mwyaf heriol i ddod o hyd i wirfoddolwyr ar hyn o bryd. Mae'r trydydd sector yn croesawu cymryd rhan a chefnogi gwasanaethau, ond mae adnoddau'n aml yn dod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan ei gwneud yn anodd ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon. Galwodd RC am fwy o flaengynllunio o ran ariannu ar gyfer mentrau'r trydydd sector.</p>	<p>JC</p>
<p><u>Llywodraeth Cymru</u> Dywedodd JC wrth y partneriaid fod disgwyl i lywodraeth leol a'r trydydd sector gael cynigion grant tymor hwy o'r flwyddyn nesaf ond y bydd yn codi'r mater a'r manteision a fyddai'n deillio o fod yn fwy trugarog wrth gario arian drosodd. Nododd JC hefyd fod Llywodraeth Cymru yn debyg iawn i'r partneriaid eraill hefyd yn dioddef o faterion recriwtio yn fewnol.</p>	
<p><u>Cynghorau Tref a Chymuned</u> Cododd MC y mater o allu defnyddio gwasanaethau meddygon teulu gyda phobl yn gorfod aros amseroedd hir ar y ffôn i gael eu brysennu. Awgrymodd MC fod angen cyfathrebu'n well ar frysennu a chau meddygon teulu er mwyn i'r Cynghorwyr drosglwyddo'r wybodaeth i drigolion. Nododd FK fod gwaith wedi'i wneud i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned mewn cyfarfodydd ac mewn grwpiau annibynnol. Gellid ystyried gwaith i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yn benodol, mae AH yn arwain ar y maes hwn. Awgrymodd HM y gallai'r cyfathrebu ddefnyddio'r sianel rhwng y BGC a'r Cynghorau Tref a Chymuned sydd wedi'i chryfhau'n ddiweddar. Nododd MB fod sesiwn ymgysylltu â'r BGC eisoes wedi'i chynllunio sy'n agored i Gynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd HM wrth y partneriaid y rhagwelir y bydd y sesiwn hon yn cael ei chynnal ym mis Ionawr, er y disgwyliad y byddai'r sesiwn yn canolbwyntio ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, gellid ymdrin â'r mater hwn sy'n dod i'r amlwg yn lle hynny. Dywedodd CJ fod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned unigol ond y byddai'n hapus i siarad â'r Cyngor Tref a Chymuned lleol ar unrhyw adeg. Bydd MC yn gwahodd CJ i fynychu cyfarfod tref a chymuned lleol.</p>	<p>FK / AH</p>
<p>Roedd NM yn awyddus i drafod y materion sy'n ymwneud â chau meddygfa Albert Road, yn enwedig mewn perthynas â phwysau'r gaeaf. Mynegodd NM bryderon hefyd ynghylch a oedd canolfan profion COVID Colcot yn parhau'n ganolfan alw heibio os oes angen trefnu'r profion ymlaen llaw. Bydd FK yn mynd ar drywydd hyn gyda'r is-gontractwyr a bydd yn rhoi</p>	<p>MC</p> <p>FK</p>

<p>gwybod i NM os bu newid a bydd yn sicrhau bod y newidiadau posibl yn cael eu cyfathrebu'n gyhoeddus.</p> <p>Nododd CJ y themâu cyffredin ar draws sefydliadau sy'n canolbwyntio ar y gweithlu gyda materion recriwtio a chadw staff. Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn anodd i bob partner ac fel BGC sy'n edrych i'r dyfodol efallai y gallai'r partneriaid ystyried sut i wneud y rolau'n fwy deniadol a helpu gyda recriwtio yn y dyfodol. Cytunodd MB a gofynnodd a oedd y materion a godwyd yn bwysau'r gaeaf neu bwysau cyffredinol y mae'r gaeaf yn effeithio arnynt. Cynhaliwyd trafodaethau tebyg yng nghyfarfod BGC Caerdydd a chyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i ystyried sut y gall partneriaid leddfu'r pwysau'n rhanbarthol.</p>	
<p><b>8. Y Flaenraglen Waith</b></p> <p>Rhoddodd TB wybod i'r partneriaid fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r flaenraglen waith ar gyfer 2022 gan ganolbwyntio ar gwblhau'r Asesiad Lles a datblygu'r Cynllun Lles. Os oes gan y partneriaid unrhyw eitemau yr hoffent eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, dylent gysylltu â TB neu HM.</p>	
<p><b>9. Unrhyw fater arall</b></p> <p>Dywedodd HM fod Suzanne Wood wedi dweud bod ychydig o lithriad wedi bod o fewn y Gronfa Atal a Blynnyddoedd Cynnar sydd wedi creu'r cyfle i'r partneriaid gyflwyno cynigion ychwanegol gyda'r angen i wario'r arian erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion yw 14 Rhagfyr. Awgrymodd FK y gwneir penderfyniad cyflym ar y cynigion a dderbynnir ar gyfer y gronfa. Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i ailedrych ar ddyraniadau'r gyllideb gyda'r partneriaid i weld a oes angen eu haddasu er mwyn osgoi tanwariant mawr yn y dyfodol.</p>	
<p><b>10. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 18 Chwefror 2022, 10:30am – 12:30pm drwy Microsoft Teams</b></p>	